Im Bus von Swansea hinaus nach Rhossili auf der Gower Halbinsel haben ein paar sehr junge Studentinnen aus Frankreich und Spanien eine gute Zeit, sie wiegen sich zu der 60er-Jahre-Musik, die der nicht mehr junge Busfahrer eingestellt hat. Die Frauen haben Strandmatten unter den Arm geklemmt und einen Ball dabei, wir alle im Bus freuen uns auf die auf uns wartenden Ecken und Winkel der Gower-Halbinsel—jenem lange zwischen Walisern und Angelsachsen umkämpften Gebiet—, es ist ein sommerheißer Frühlingstag, der erste Sonnenbrand wird uns in einigen Stunden ereilt haben ..., in Manchester aber kühlen die, wie man sagt, sterblichen Überreste der am Montagabend ermordeten Kinder und Jugendlichen aus. Die Gedanken sind festgehakt, sie können sich nicht lösen, das Leben geht weiter, ja, aber wie?, wir lassen uns unsere Art zu leben nicht nehmen, ach, wirklich nicht?

Wales leuchtet draußen vorm Bus, sieh hin!, nimm das auf!, ruhe die Augen aus! erinnere dich daran, später in der Mitte Europas, wenn du das Meer wieder vermissen wirst, den Sing-sang im Sprechen der Waliser beim Austausch von Alltäglichkeiten. Der Ginster-Hügel über Rhossili strahlt auf. Mythisches Land, Rückzugsgebiet der Kelten vor den sie bedrängenden Angelsachsen. Noch viel, viel weiter zurückreichend, weiß einer der Rentner im Linienbus nach Rhossili seinem Reisegefährten—ja, es ist eine Reise, was denn sonst!—zu berichten, ist aber das älteste, je in Britannien gefundene menschliche Skelett, das

man vor zweihundert Jahren hier auf der Gower entdeckt habe, mehr als dreißigtausend Jahre alt. Ah, Zeit!

Die Ebbe hat aus dem Worm's Head an der Spitze der Gower-Halbinsel zugängliches und erreichbares Land gemacht, wer sich bis ganz nach vorn wagt, der ist dann eine Galionsfigur an den Felsen, vor sich nur das Meer, offen, weit, Anfang und Ende in einem. Das Vergangene und auch das Gegenwärtige abgeschirmt durch den Felsen im Rücken. Kein Woher mehr, nur ein Wohin, ein ungewisses. Vielleicht, daß sich damit doch einmal jemand dorthin locken und dann von der rasch auflaufenden Flut auf der im Handumdrehen entstehenden Insel festsetzen läßt? Einfach so und nur, um ihm eine Lektion zu erteilen. Wofür auch immer.

Im November ist dieser Weltwinkel entlegen, abgeschieden und menschenleer, dafür aber umso angefüllter von Regen, Wind, Rauschen. Keiner, auch aus dem Ort, dem Nest, nicht, der sich dann draußen sehen ließe. Da bricht sie dann doch einmal durch, die vor-menschliche Welt—oder ist es eine Vorahnung der nachmenschlichen Welt?—und zeigt sich rauh, elementar und vollständig, zeigt sich als Ganzheit, auch ohne uns. An einem sommerwarmen Maitag aber zieht sich unsere Prozession über die befestigten Wege vom Parkplatz weg oder von der Bushaltestelle bei der Kirche St. Mary's, in der an Edgar Evans erinnert wird, der aus Rhossili stammte und 1912 mit Captain Scott in der Antarktis ums Leben kam. Wir tragen unsere grellbunte Kleidung wie auf einem Laufsteg, wir rufen, lachen und lärmern, wir halten uns in einem fort die Kameras unserer Mobiltelefone in unser Anschauen (?!), um das Gesehene augenblicklich—aber erblicken sie denn noch wirklich etwas, unsere Augen?—in die entferntesten Weltgegenden zu senden, mitten hinein in den japanischen Abend etwa oder in den anbrechenden Tag im Westen Amerikas.

Der Autoparkplatz von Rhossili wird für den sommerlichen Andrang der Ausflügler befestigt, Baufahrzeuge wirbeln Staub auf, ein Vorarbeiter weist unter Rufen und Lachen einen rückwärts rangierenden Laster ein, die Wagen der Besucher werden derweil auf eine Wiese geleitet und dort abgestellt. Eine Frau steht bei ihrem Wagen, sie steht neben der geöffneten Beifahrertür, sie trägt ein Kopftuch. Hinter der Tür betet ihr Mann, er kniet nieder, berührt mit der Stirn die Erde, steht auf, hebt die Hände vors Gesicht, spricht leise, kniet nieder ... Die Frau

ist, wie der Mann auch, jung, sie ist schwanger und sie behütet ihren hinter der Tür betenden Mann. Wie verletzlich wir sind im Akt des Gebets. Und wie dezent das Gebet dieses Mannes ist, wie zurückgenommen und wie anders als das der Schau-Beter, wie sie in Berlin oder anderen deutschen Großstädten seit einiger Zeit anzutreffen sind, Schau-Beter, die gar nicht beten, sondern damit beschäftigt sind, aus den Augenwinkeln heraus wahrzunehmen, ob ihr Posieren—oder was auch immer—genügend beachtet wird. Männer, die den öffentlichen Raum usurpieren, religiöse Exhibitionisten, bestrebt, anderen ihre Religiosität aufzunötigen. Wie subtil der Betende hier! Ah, zu sagen: Schwester, zu sagen: Bruder. Ah, die Stirn auf keltischen Boden legen, in der Hoffnung, so einen Gott—den strafenden? den liebenden? den großen?—zu erreichen. Subtiles Beten auf dem Felsen, dem Land, das auf den Worm's Head hinführt, und das der Dichter Vernon Watkins »*the world's very verge*« nennt, den äußersten Rand der Welt.

26. Mai. Freitag

Nach jahrelangem Umbau ist in Swansea die Glynn Vivian Art Gallery wieder geöffnet. Sie ist an diesem strahlenden Morgen ein Refugium inmitten einer taumelnden Welt. Die wenigen Besucher verlieren sich in den Räumen. Sie gehen an den Sammlungen des wohlhabenden Industriellensohns und Stifters Glynn Vivian (1835–1910) vorbei, die versuchten und immer noch versuchen, Ordnung in die Welt zu bringen, indem sie Artefakte menschlichen Ausdrucks aus allen Winkeln der Erde zusammenhalten. Natürlich ist da der Ausdruck eines jeden Exponats, sei es Porzellan, sei es ein Gemälde, aber an diesem Morgen ist die stille Anwesenheit der Dinge, ist ihr Ausharren im Lärmen der Gegenwart das Wichtigste. Die Zeit hat in diesen Räumen ein anderes Maß, die Besucher atmen es mit jedem Atemzug ein, die Schritte werden ruhiger, vielleicht gelingt es sogar, vom Sehen ins Schauen zu geraten. Und schon ist die abgelegene Stunde in der Galerie um ...

Draußen vor der Tür ist, so will mir scheinen, Wales, das angisierte südliche Wales, ist Swansea eine Übergangswelt, ohne daß sich mir erschließt, wohin dieser Übergang führt. Uplands, mein alter Wohnort Anfang der 1990er Jahre, ist mittlerweile gänzlich dylanthomisiert worden, es gibt Hinweistafeln, wo der Dichter als Junge gelebt hat, wo

er entlanggegangen ist, ja, daß der ganze Stadtteil der seine war. Das Geburtshaus am Cwmdonkin Drive wird von einem privaten Besitzer als Wallfahrtsort für Thomasianer präsentiert, Swansea Council macht sich Gedanken darüber, wie das Kindheitsgebiet von Dylan Thomas in seinem viktorianischen und edwardianischen Äußeren erhalten werden kann. Gleichzeitig scheint ein Einwohneraustausch stattgefunden zu haben. Lebten vor fünfundzwanzig Jahren in Uplands noch Familien mit Kindern und auch alte Menschen, so sind die Häuser nun oft und nur zu oft von Studenten bewohnt. Wahrscheinlich bringt das den Eigentümern einen höheren Gewinn, nur ist für jeden Gewinn eben auch ein Preis zu bezahlen, und der Preis ist hier das versehrte Antlitz eines Stadtteils. In den Erkerfenstern, hinter denen sich einmal Familien versammelten, sind nun Fahnen aufgespannt, die von der Herkunft der studentischen Bewohner sprechen, zumeist aber sprechen sie bloß davon, welchem Fußballklub sie anhängen.—Die Zahl der Studenten, die in Swansea studieren wollten, habe sich nach dem Aufstieg von Swansea City in die Premier League um zwanzig Prozent erhöht, wurde mir erzählt, um so wichtiger sei es, daß der Klub nun, zum Ende der Saison 2016/17, nicht abgestiegen sei. Die Universität, aber da unterscheidet sie sich nicht von deutschen Universitäten, müsse ihr Angebot kundengerecht gestalten. Was in erster Linie bedeutet, es den vorrangig das Geld bringenden Chinesen und Arabern und deren Wünschen anzupassen. Und auch da unterscheidet sie sich nicht von deutschen Universitäten.—Fahnen also, Studentengewimmel am Abend auf der Straße, der Off-License immer umringt von sich mal mehr, mal weniger streitenden, mal mehr, mal weniger betrunkenen jungen Männern. Nachts schallt aus geöffneten Fenstern immer irgend-eine Party. In immer mehr der winzigen Vorgärten der Häuser, in denen vor fünfundzwanzig Jahren Blumen und Büsche wuchsen und blühten, stapeln sich Müllsäcke, die von Füchsen oder von den immer hungrigen Möwen aufgerissen werden, sie verteilen den Müll bis auf das Trottoir und auf die Straße hinaus und dort bleibt er liegen, weicht im Regen auf, wird von den Autos festgefahren. In anderen Vorgärten stehen ausrangierte Stühle, Tische, Sofas, und es ist ihnen anzusehen, daß sie dort seit langer Zeit auf ihre Abholung warten. Wird irgendwo ein Haus renoviert, dann landet der Bauschutt ebenfalls im Vorgarten, von wo er wahrscheinlich erst abgeholt wird,

wenn die Entsorgungs-gebühren einmal erlassen werden. An den Wochenenden aber—schlafen die Studenten? sind sie zu ihren Familien gefahren?—liegt der Stadtteil tagsüber wie ausge-storben, blicken die Dylan-Thomas-Hinweistafeln auf viktorianische und edwardianische Fassaden und ins Leere. Die verbliebenen Einwohner wehren sich tapfer, veranstalten einmal im Monat einen Markt, auf dem es Gemüse, Brot, Käse, Kräuterprodukte und hand-gefertigten Schmuck gibt. Das wichtigste aber ist, daß man einander sieht, miteinander Tee oder Kaffee trinkt, um so einen Pflock in die Erde zu stoßen—an dem man sich im allgemeinen Auseinanderdriften festbinden kann?

Es ist eine Übergangswelt. Die Oberfläche des Übergangs wird in der St. Helen's Road bunt verziert von indischen und pakistanischen, türkischen, persischen, italienischen, spanischen und französischen Restaurants, dazwischen und daneben sind asiatische Geschäfte aufgereiht, auch polnische und afrikanische, gefolgt von Barbierläden, die allesamt von jungen Arabern, Kurden, Iranern und Pakistanern betrieben werden und ›Studios‹ heißen. Eine Überformung folgt der andern, das Walisische ist im Süden von Wales mit der industriellen Revolution dem Englischen schließlich gewichen, jahrhundertelang war es der Präsenz des Angelsächsischen ausgesetzt, war es tiefer und tiefer in die Täler gedrängt worden, um dort mit den Bergleuten nach unter Tage einzufahren. Es hält sich im Süden von Wales noch musealisiert oder folklorisiert oder aber in kleinen tapferen Verteidigungsnestern. Ein junger Bekannter der Freunde erzählt davon, daß in seiner kleinen Familie Walisisch gesprochen werde und daß er und seine Frau ihrem zweijährigen Sohn das Walisische als seine Muttersprache mitgeben wollten. Der Junge wisse, wenn sie einmal zum Arzt gingen, überhaupt nicht, was man von ihm wolle, weil er den Arzt einfach nicht verstehre. Selten daß da in irgendeiner Arztpraxis einmal jemand Walisisch mit dem Kind sprechen könne. Und das in Wales! Auf meine Frage, was da zu tun sei und ob es denn nicht unweigerlich darauf hinausliefe, irgendwann die Sachen zu packen und in den Norden von Wales zu ziehen, an den äußersten Rand des Randes, wo das Walisische noch im Alltag gesprochen werde, sagt der junge Bekannte der Freunde, daß sie in Swansea aushalten wollten. In der Zwischenzeit scheint er an seinem Ruf als Faktotum zu arbeiten, denn

einmal erkannt, erkenne ich ihn während meines Aufenthaltes immer wieder als Omnipräsenten, der abends vor der einen Kneipe plaudert, um schon ein paar Ecken weiter an der nächsten in ein Gespräch vertieft zu sein, doch halt, da drüben ist er ja ...

Das Leben geht weiter. Ein harmloser Satz, ein brutaler Satz. Die Woche begann mit Morden, es folgten verhangene Tage, es folgten strahlende Sommertage, irgendetwas steht unsichtbar hinter uns und schubst uns voran, mal sanft, mal rauh. Am Abend dieses Freitags im Volcano Theatre dann der Grund? der Reise, das Alibi? der Vorwand? Ich weiß es nicht mehr, obwohl die Reise doch als Reise hin zur Präsentation von Gedichten gedacht und geplant war, eine Reise hin zu einer für das Publikum zu lesenden Geschichte. Und alles Geschriebene scheint mit der vergangenen Woche in Verbindung zu stehen, alles scheint dieser einen Woche entwachsen zu sein, obwohl manches doch vor längerem schon aufgeschrieben worden war. Welche Gravitationskräfte mitunter und gänzlich unerwartet wirken: Der den Abend eröffnende, aus England stammende und bei Cardiff lebende Dichter Philip Gross tritt—als könnte es gar nicht anders sein!—mit seinen Gedichten ein in den Raum in der Mitte Europas. Sein Schlüssel ist ihm sein nach dem Krieg nach England gekommener estnischer Vater. Eine Geschichte wie gemacht für einen Kinofilm. Und ich sehe sie vor mir, diese Mitte Europas, von hier aus, vom Rand, der, und sei es nur in mir, mit dieser Mitte doch zusammenhängt.

Und wie nannte Elizabeth Price die von ihr für die Glynn Vivian Art Gallery kuratierte Ausstellung? *In a dream you saw a way to survive and you were full of joy. ...*

Mit der Stirn die Erde berühren, ein paar Worte murmeln: Gedichte. Als Alibi. Als Vorwand. Als Grund.

2017.



WRTH YMYL YR YMYL
NODIADAU TEITHIO*

Cyfieithwyd gan Bethan Gwyn.

Yma, lle rwy'n byw, mae corff yr afon Elbe sy'n llofo heibio yn cynnwys yr afon Moldofia hefyd, ac mae'r ddwy afon yn dod o Bohemia, 'gwlaf anialwch ger y môr' chwedl Shakespeare. Yma yw'r gornel o ganolbarth Ewrop sy'n troelli o'r Baltig i lawr i'r Adriatig mewn stribed newidiol o ran lled gyda ffiniau ansicr. Nodweddir canolbarth Ewrop gan ganolfannau a mannau anghysbell, mae yma wahaniaethau yn ogystal â thebygrwydd, fel y gall teithiwr o'r ardaloedd hyn fynd trwy leoedd gwahanol, ac ar yr un pryd cadw at yr hyn sy'n gyfarwydd. Mae'r dafodiaith yn eithaf rhyfedd, ac wedi gadael ei hôl ar feddyliau a gweithiau llenyddol y trigolion. Rydym yn wahanol i'n gilydd yma, ond rydym ar yr un pryd yn adnabod ein hunain yn y bobl eraill, heb orfod siarad eu hieithoedd. Rydym yn adnabod ein gilydd hyd yn oed pan fyddwn yn ymosod ar ein gilydd. Oherwydd y rhan fwyaf o'r amser mae canolbarth Ewrop wedi bod yn faes y gad am rywbeth neu'i gilydd, ac roedd pob un o'r bobl niferus a oedd yn byw yma ochr yn ochr wedi cael y cyfle, ar ryw adeg neu'i gilydd, i wneud drwg i'r bobl eraill. Ond bu achosion o wneud pethau da i'w gilydd hefyd. Dyna oedd, a dyna yw, dyddiau gorau canolbarth Ewrop. Rwy'n byw yma o fewn cyrraedd tri math o bobl Slafaidd: y Sorbiaid, y Tsieciaid a'r Pwyliaid. Mae radio fy nghar yn codi eu gorsafoedd drwy'r amser. Mae'n brofiad eithaf arbennig gyrru trwy dywyllwch gaeaf Sasconiaidd a chlywed clychau eglwys Bohemia yn canu drwy'r orsaf Tsiec Český rozhlas Vltava am hanner nos, ac yna'r emyn *Kde domov můj?* (Ble mae fy nghartref?). O'r man hwn, mae Cymru'n lle gwirioneddol ecsentrig, a phan edrychaf ar y map, ni allaf peidio â chlywed sŵn Cymru—cael fy nhynnau neu fy

* Roedd Jörg Bernig y bardd, y nofelydd a'r ysgrifwr o'r Almaen, yn darllen yn yr *Wyl Amlieithog* a gynhalwyd gan Adran Ieithoedd Modern, Prifysgol Abertawe yn Theatr Volcano, Abertawe, ym mis Mai 2017. Treuliodd wythnos yn Abertawe, lle bu'n byw am ddwy flynedd ar ddechrau'r 1990au. Ysgrifennwyd y nodiadau teithio a gyflwynwyd yma yn ystod ei arhosiad am wythnos. Mae'n byw yn yr Almaen, ger Dresden.

ngwthio gan rym allgyrchol cudd—yn rhwygo'i hun oddi wrth Loegr, er mwyn mynd gyda'r llif i'r Iwerydd gydag Iwerddon a diflannu yno mewn niwl lledrithiol, na all dim ond llongau'r Llychlynwr Erik the Red fynd trwyddo.

Felly rydw i'n mynd yno nawr, at yr ymyl, i'r Gŵyl Amlieithog sy'n dathlu lleisiau yn Theatr Volcano yn Abertawe, lle byddaf yn darllen cerddi a stori fer o ganolbarth Ewrop, i ffwrdd i'r ymyl am un wythnos fer ac i ffwrdd o'r canolbarth hwn, lle mae pethau'n teimlo'n anghyfforddus unwaith eto, gan fod llywodraeth yr Almaen ym Merlin yn creu anghydfod rhwng cymdogion. Efallai ei bod hi'n anodd i rai sy'n byw ar ynys ddychmygu sut beth yw cael cymdogion yn union wrth eich ymyl, hynny yw, nid ar ochr arall y cefnfor neu'r sianel ond ar ochr arall y ffens yn yr ardd. Gall fod yn anodd hefyd dychmygu'r hyn y mae'n ei olygu i fod benben gydag eraill mewn lle cyfyngedig, heb yr opsiwn o hwyliau i ffwrdd. Yn Ewrop, yn arbennig yng nghanolbarth Ewrop, ceir anghydfod ynglŷn â chwestiynau'n ymwneud â sofraniaeth gwaldwriaethau, oherwydd yn 2015 nid oedd cymdogion yr Almaen—yn wahanol i'r Almaen—yn barod i roi'r gorau i'w sofraniaeth gwaldwriaeth o blaid mudo torfol heb ei reoli, neu'r hyn a elwir yn awr yn 'sioc globaleiddio 2015'. Mae'n anodd credu, ond mae hen honiadau benarglwyddiaethol yn erbyn Ewrop yn dychwelyd ar ffurf llywodraeth yr Almaen gyda'r gwrthbleidiau yn ei gefnogi. Y tro hwn mae'r honiadau'n ideolegol o ran natur, oherwydd yn ôl un ddadl, mae cymdeithasau modern yn cael eu diffinio gan 'amlddiwyllianniaeth', 'amrywiaeth liwgar' a 'chosmopolitaniaeth'. Roedd yr Almaen swyddogol yn gweld ei hun fel arweinydd yn y meysydd hyn, gyda'r pleidiau gwleidyddol traddodiadol a rhannau mawr o'r cyfryngau yn ei chodi i statws tebyg i athrawiaeth Ewrop gyfan. Roedd beirniaid mudo torfol (yn eu plith nifer o wledydd Canol Dwyrain Ewrop) yn cael eu cyhuddo o droi o'r neilltu, peidio â bod yn fodern ac yn aml yn cael eu dynodi'n geidwadol neu'n adweithiol. O ganlyniad, cafodd gweddnewidiad sylfaenol yng nghymdeithasau Ewrop ei sbarduno gan y mudo, sydd wedi lleihau ers 2015 ond mae'n parhau'n gyon, ac ni ellir anwybyddu gwrthdar o diwylliannol mwyach. Ond nid yw honiadau'r Almaen yn cynnwys yr atyniad anorfad o syniad argyhoeddiadol, mae'n dibynnau'n unig ar y syniad y gall weithredu fel hyn gan mai hi yw'r wlad fwyaf pwerus yn economaidd yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n credu bod

hynny'n golygu arweiniad gwleidyddol y mae'n rhaid i'r gweddill ei ddilyn. Mae problemau mawr yn Ewrop, ac mae diffyg dedwyddwch domestig yn dod i'r amlwg hefyd yng nghanolbarth Ewrop.

Felly, gyda helynt fel hyn, i ffwrdd â ni, at yr ymyl, i Gymru! Efallai y gellir dod o hyd i rywfaint o heddwch a thawelwch yno yn edrych allan i'r môr? Beth argymhellodd Christopher Logue i ffrind a oedd yn chwilio am unigedd gwledig? 'Pan fydd popeth arall yn methu, / Rhowch gynnig ar Gymru.'

22 Mai. Dydd Llun.

Mae'r hwyliau cyffredinol (negyddol) yn yr Almaen yr wyf yn eu gadael ar ôl wrth i'r awyren godi yn sicr yn cyfateb i'r unffurfiaeth sy'n ymestyn oddi tano; mae fel pe bai'n taranu o dan yr olygfa olau. Mae'n ddiwrnod braf o wanwyn, mor gynnes â'r haf, gellir gweld ymhell, ond mae'r wlad fwyaf goediog yn Ewrop oddi tano yn ymddangos fel dim byd mwy nag un cae mawr yn llawn o had-rêp yn ei flodau. Mae melyn unffurf yr had-rêp yn goruchuddio'r wlad, gyda'i holl ganlyniadau, oherwydd mae mynd am dro drwy'r Almaen ym mis Mai pan fo'r had-rêp yn ei flodau yn golygu cerdded trwy ogleuon trwm, ymdrochi mewn arogl sy'n troi'n ddrewdod pan ewch i'r gawod ar ôl cyrraedd adref. Mae amaethyddiaeth yr Almaen wedi newid i fod yn ddiwydiant ynni. Defnyddir olew had-rêp fel biodanwydd yn bennaf, a dim ond ychydig ohono a ddefnyddir ar gyfer bwydydd. Yn y cyfamser, mae prif gwneuthurwyr ceir yr Almaen yn twyllo o ran gwerth allyriadau mygarth eu cerbydau. Trechu'n wleidyddol a thwyll economaidd ... dyna sut mae pethau'n ymddangos wrth edrych i lawr o'r awyren, gyda phopeth wedi'i orchuddio gan felyn swlffwr yr had-rêp.

Hyd yn oed o uchder o ddeg mil o fetrau mae'n hawdd gweld pryd rydych yn croesi'r ffin i'r Iseldiroedd. Yn sydyn mae popeth yn wyrdd i lawr fan 'na, mae yna drefn a strwythur gwahanol: mae'r tirlun amaethyddol yn nodwediadol o'r Iseldiroedd. Campwaith o dir a dynnwyd oddi wrth y môr ... Da iawn chi gefndryd!

Wrth hedfan dros y Sianel o Amsterdam i gyfeiriad Caerdydd, daw ffermydd gwynt enfawr ar y môr i'r golwg, sy'n ymddangos fel mynwentydd milwrol ar y ffrynt gorllewinol wrth edrych i lawr arnynt. Mae'r tyrbinau gwynt fel croesau gwyn mewn tir brown; mae'r môr yn gae wedi'i aredig a'r llongau yw'r bobl sy'n ymweld â'r fynwent filwrol

fawr. Maent yn ymlusgo i ffwrdd, gan lusgo eu traed, yn crafu wyneb y môr brown gan adael llinellau gwyn bach. Mae hanes mileinig Ewrop yn tarfu o hyd ar y dehongliad o'r ddelwedd hon; wrth weld mastiau'r tyrbinau gwynt, ni ellir eu gweld er enghraifft fel coed gwyn y gellir gosod rhosynau arnynt. A yw ein hanes yn difetha'r olygfa? Hyd yn oed os nad oeddem ni'n gysylltiedig â'r presennol orffennol?

Ymhenechydig wedyn gwelir yr afon Tafwys yn ymdroelli o dan yr awyren. Gellir gweld Lloegr yn glir hefyd, ac mae cyrion Llundain eisoes yn symud tuag atom, yn fuan gellir gweld pontydd, ac yna Pont Tŵr Llundain yn glir, a draw fan acw y London Eye, ac yna San Steffan! Mae'r awyren yn hedfan yn dawel tua'r gorllewin dros y ddinas tuag at Gymru, ac rwy'n edrych ymlaen at fynd yno oherwydd roeddwn yn arfer byw yno flynyddoedd yn ôl. Felly, dychwelyd yw hyn, efallai mynd adref hyd yn oed, oherwydd cefais neges gan ffrind yr wif yn aros gydag ef na fyddai'n ôl tan yn hwyrach yr wythnos hon, ond wrth gwrs roeddwn i'n gwybod lle i gael hyd i allwedd y tŷ, ond oeddwn? Ac rwy'n teimlo'n hapus ... wrth i faes awyr Heathrow ddod i'r golwg isod, mae Arabiad ifanc sy'n eistedd tu blaen i mi yn cyfnewid edrychiad ac ystumiau dieiriau gyda dau o'i gyd-deithwyr. Trwy gydol y daith, bu'n edrych yn ddistaw allan o'r ffenestr, ond nawr mae'n cymryd ei ffôn symudol o boced ei siaced ac yn ffilmio a thynnau lluniau o faes awyr Heathrow Llundain isod, tan, er gwaethaf ei ystumiau, ni all weld mwy trwy ffenestr y caban. Mae fy nghyd-deithiwr yn rhoi ei ffôn symudol yn ôl ym mhoced ei siaced. Ping! Mae swigen y rhith o deithio yn byrstio. Mae'r dymuniad bach i ddianc rhag cythrwl bywyd bob dydd gyda'r daith fer hon i Gymru, eisoes wedi gorfod ildio i realiti sy'n rhoi dehongliad newydd ar bopeth—ac a yw'r dehongliad hwn o ganlyniad i fod yn ofalus? Neu hyd yn oed bod yn amheus? Ping!

Ond o leiaf nid yw caeau Lloegr, na chaeau Cymru, wrth i ni ddynesu at lanio yn ymledu'n felyn unffurf fel yn yr Almaen, ond maent yn wyrdd, fel y rhai yn yr Iseldiroedd. Gwyrrddni rhwng y gwrychoedd! Mae'r môr yn y pellter draw i'r chwith; ac ymlaen mae Cymru! Wrth i'r awyren ddisgyn yn ofalus i'r gwyrrddni hwn, mae Afon Hafren yn ymdroelli'n nes, ac mae Sianel Bryste yn ymledu. I'r gogledd mae Cymru, a Dyfnaint i'r de. Plymio i'r gwyrrddni hwn, ac ymdrochi ynddo. Breuddwyd gwrrach teithiwr. Teithio a dymuno, dymuno a theithio: yr un peth. Mae maes awyr Caerdydd o'n blaenau, ac mae'r Arabiad ifanc

o'm blaen, na thalodd unrhyw sylw i'r caeau na'r golygfeydd oddi tano, unwaith eto ar ôl cyfnewid edrychiad ac ystumiau gyda'i gyd-deithiwr yn cymryd ei ffôn symudol allan o'i boced ac yn fffilmio'r glanio, yn fffilmio adeiladau a thir y maes awyr wrth iddynt ddod i'r golwg yn gyflym. Mae'n parhau i fffilmio nes bod yr awyren yn troi i'w safle parcio. Mae gan rai ddiddordeb mewn trenau, eraill mewn llongau, eraill mewn meysydd awyr, beth am hynny? A yw ein hanes yn difetha'r olygfa? Hyd yn oed os nad oeddem ni'n gysylltiedig â'r presennol orffenol? A yw'r presennol hefyd yn difetha'r olygfa? Hyd yn oed os nad ydym ni'n gysylltiedig â'r presennol bresennol, dim ond eisiau dilyn ein nodau? A yw sŵn y presennol yn ein harwain yn syth i baranoia? Pam na ellir cadw'r presennol draw? Hey, Capten Kirk, pam nad yw'r darnau gwrthgilio'n gweithio?

Yn y carwsel bagiau, diflanna gymuned artiffisial yr awyren, gyda phawb yn cymryd eu cês ac yn mynd allan i droedio tir Cymru. Nid yw cynhesrwydd cynnar y tir mawr wedi cyrraedd Cymru eto; mae awel oer yn chwythy. Mae arwydd yn adeilad y maes awyr yn cyhoeddi: Croeso i Caerdydd.

Yng nghanol tagfeydd traffig y prynhawn, mae'r bws yn symud modfedd wrth fodfedd tuag at orsaf drên Caerdydd. Yn betrusgar, mae'n ennill ychydig o'r ffordd—sydd eisoes wedi'i hamgylchynu gydag arwyddion ar gyfer rownd derfynol Pencampwyr Ewrop, ac wrth gwrs Real Madrid sy'n chwarae, y tro hwn yn erbyn Juventus. Mae'r bws yn aros eto, yna gwibio ymlaen yn rhydd cyn cyrraedd yr haid o draffig eto. Mae'n ras lle mae ymdrechion i ddianc yn ddibwynt, gan fod y canlyniad yn glir o'r dechrau: bydd pawb yn cyrraedd yr un pryd. Mae hynny'n beth da, oherwydd gellir cydgyfeirio'n araf ar ôl yr awr gyflym o'r tir mawr i'r ynys, pan ysgubodd wledydd cyfan a dinasoedd fel Amsterdam a Llundain heibio o dan yr awyren. Taith fer ar droed i roi cyfle i'r enaid ddal i fyny.

Mae plafform pedwar yng ngorsaf trêñ Caerdydd yn orlawn. Gyferbyn ar blafform tri, gellir gweld poster—Richard Strauss, *Der Rosenkavalier*. Mae cyhoeddiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn atseiniol uwch ben y rhai sy'n disgwyl. Mae trêñ Great Western Railway yn cyrraedd, mae pawb yn eistedd ac i ffwrdd â ni i gefn gwlad trwy Gastellnedd a Phen-y-bont ar Ogwr i Abertawe. Clywodd gydnabod i fy ffrind o Abertawe sgwrs ar y bws o Bontardawe i Abertawe un tro (tua

2004), lle gwnaeth alw Abertawe yn 'Bangladesh' fel jôc, ond ni wnaeth y person arall ei ddeall ar unwaith. Tan hynny, roedd mudo yn bennaf o Asia, ond mae'r ddinas ethnig bresennol mor amrywiol fel na fyddai'r jôc yn gwneud unrhyw synnwyr bellach. Daw'r grwpiau ethnig sydd yn Abertawe heddiw o bob cwr o'r Ddear. Yn nhref sirol y rhanbarth yn yr Almaen lle rwyf yn byw, mae pobl wedi dechrau galw'r ffordd sy'n cysylltu'r swyddfa les gyda'r ganolfan lety sy'n cartrefu'r mudwyr a grymhaeddodd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, yn Ffordd Ramadan. Ac ar ymyl y dref fach lle cefais fy magu, roedd stryd o fyngalos a adeiladwyd ar ôl y rhyfel a elwid yn New Delhi. Cafodd anheddiad bychan y tu allan i'r ddinas yng nghanol y caeau ei alw'n Rwsia Newydd. Roedd yn ymddangos yn amlwg i bawb na ellid galw tai anghysbell mewn pentref cyfagos yn unrhyw beth heblaw am Corea. Roedd defnyddio cyfeiriadau at ddaearyddiaeth yn adlewyrchu pellenigrwydd cym-deithasol; roedd y rhai 'allan yno' yn aml ar gyrrion cymdeithas. Ychydig sydd wedi newid yn hyn o beth. Rydych yn llusgo pethau fel hyn o gwmpas gyda chi yn eich bagiau anweledig, heb erioed gofio ei bacio. Dim ond un gair sydd ei angen ac mae'n neiddio allan o gorneli tywyll geriach a daflwyd ac yn ymuno yn y broses o ddehongli'r byd.

Y tu allan i orsaf drên Abertawe, nid yw'r blaengwrt bellach yn edrych yn debyg i'r un sy'n croesawu darllenwyr yn fy nofel *Weder Ebbe noch Flut*, ond mae'r bobl ddigartref a'r jyncis yn dal i lechu yno, ac mae Jac yr Undeb a baner gwyrdd coch a gwyn y ddraig goch yn cyhwyfan tu allan i Westy'r Grand gyferbyn. Edrychwrch yn ofalus, sylwch, cofiwch hyn pan, un diwrnod, efallai na fydd hyn i gyd yn bodoli mwyach, pan fydd Cymru wedi cael ei ysgubo allan i niwl lledrithiol yr Iwerydd!

Mae'r allwedd i dŷ fy ffrind, sy'n dal i ffwrdd yn teithio yn rhywle, wedi'i adael, fel yr addawyd, yn y lle cyfarwydd. Gydag un symudiad bach o'r llaw, dad-ddieithrio. Mae cerdded i'r Brunswick Arms yn teimlo'n union fel cerdded i'r swyddfa i ailennill dinasyddiaeth. Eistedd yn gyfforddus wrth fwrrd yn y gornel, coesau wedi'u hymestyn allan, yn siarad â ffrind arall, un sydd ddim i ffwrdd yn teithio. Fel pe na bawn wedi bod i ffwrdd erioed. Mae cwpan sentimentaleiddiwrch yn cael ei lenwi gyda sgwpliau hamddenol, fel hufen iâ blasus. Beth yw pum mlynedd ar hugain! Yn llygad fy meddwl, mae caeau gwyrdd Cymru a Lloegr yn dal i fynd heibio, tra bod yr awyren yn disgyn yn araf i

Gaerdydd. Felly, a oedd yn ddianc llwyddiannus oddi wrth y presennol wedi'r cyfan? Oddi wrth hanes? Am funud, canolbarth Ewrop yw'r lle y mae i fod: ymhell i ffwrdd yng nghanol Ewrop. Am unwaith, ni allaf glywed lleisiau oddi yno. Yn wir, mae'r byd mewn sefyllfa lle mae rhywun yn hoffi ei gael: ddim yn rhy agos. O, yr ymyl! Cymru. Mae synau'r môr fel pe baent yn teithio i fyny o Fae Abertawe yn syth i'r Brunswick Arms. Wrth gwrs, nid yw hynny'n bosibl, ond hei, ewch gyda'r foment. Mae'r *Brunswick* ei hun yn Mare Tranquillitatis.

Y noson honno am hanner awr wedi unarddeg, clywaf adroddiad ar y BBC y bu ymosodiad bom ym Manceinion. Mewn cyngerdd pop.

23 Mai. Dydd Mawrth.

Unwaith eto deffro i fore'n llawn newyddion drwg. Mae'r newyddion ar y radio yn awr yn adrodd faint a laddwyd yn yr ymosodiad. Mae'r BBC yn dweud mai pobl ifanc yn eu harddegau a phlant oedd y rhan fwyaf oedd yn bresennol yn y cyngerdd. Roedd rhai o'r rhieni wedi bod yn aros y tu allan i leoliad y cyngerdd yn barod i gasglu eu plant a mynd â nhw adref. Roedd un o'r merched a laddwyd yn wyth mlwydd oed. Nid oedd y plant yn 'ddifrod cyfochrog', fel y dywedir weithiau gan gyhoeddiadau swyddogol pan fo sifiliaid ymhliith y rhai sy'n colli eu bywydau yn ystod gweithrediadau milwrol. Y plant oedd y targed, ac nid oedd yn weithrediad milwrol, roedd yn llofruddiaeth afiach, dichellgar, holol lwfr. Roedd y llofrudd, yr 'hunanladdiwr' fel y dywedant (ond a yw hwnnw'n term technegol sy'n dyrchafu llofruddiaeth i ryw fath o ddisgyblaeth broffesiynol ac felly'n rhoi pwysigrwydd i'r llofrudd?) yn ddyn ifanc 22 oed, wedi ei eni ym Manceinion ac yn fab i deulu a oedd wedi ffoi o Libya Gaddafi i Loegr. Fodd bynnag, dywedodd y News at Ten ar y teledu y noson honno fod rhieni a brodyr a chwiorydd y llofrudd bellach yn byw yn Libya eto. Roedd y llofrudd wedi dychwelyd oddi yno i Fanceinion ychydig ddyddiau ynghynt.

I lawr ym Mae Abertawe, mae'r môr yn llifo nôl i Fôr Hafren pan fo'r llanw'n isel. Yna daw'r llanw i mewn. Anadlu tawel, di-dor. Nid yw'n wir bod y byd yn dal ei anadl pan fydd rhywbeth yn digwydd. Mae'r byd yn anadlu ac yn anadlu ac yn anadlu. Ond rydym ni fodau dynol weithiau yn colli ein gwynt, yn dychryn ac yn codi ein dwylo i'n cegau, ein llygaid yn llydan agored, a chladdu ein hwynebau yn ein dwylo. Hyd nes y daw

gair—o ble? pwy sy'n ei ddweud?: Dewch nawr, gadewch i ni gario ymlaen. Ond y tu allan i orsaf drêñ Abertawe, mae'r heddlu yn patrolio gyda gynau peiriant.

24 Mai. Dydd Mercher.

Mae bywyd yn mynd yn ei flaen. Mae arweinwyr yn traethu ymadroddion maent wedi dysgu ar eu cof i'r camerâu a'r meicroffonau. Ni fyddwn yn cynhyrfu ac ni chawn ein hannog i gasau. Rydym yn byw ein bywydau, nawr yn fwy nag erioed. Ni chawn ein dychryn ... Ni wnaeth yr un ohonynt wyro oddi wrth y rôl a neilltuwyd iddynt gan udo a sgrechian am y plant a lofruddiwyd. Ni wnaeth yr un ohonynt chwaith ddweud: Chi droseddwyr. Mae ar ben arnoch chi. Gallwch chi guddio yn eich tyllau. Byddwn ni'n dod o hyd i chi. Ni ddywedodd neb hynny. Fel pe baem eisoes wedi dod i arfer â llofruddiaethau yn Ewrop. Paris, Nice, Brwsel, Berlin, Llundain. Dyma dim ond ychydig o'r ymosodiadau a gafwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Pwy sy'n dal i feddwl am Madrid? Pwy sy'n dal i feddwl am Moscow? Pwy sy'n dal i feddwl am Istanbul a Gaziantep? Am Jakarta? Am Orlando? Am Quetta? Am Kabul? Am Dhaka? Mae'r digwyddiadau (ofnadwy, creulon, annealladwy ac ati, ac ati, mae awduron yr areithiau yn rhedeg allan o ffyrdd i ddisgrifio eu 'sioc syfrdanol'—ystrydeb arall) yn dangos unwaith eto bod diogelwch llwyr yn amhosibl, rhywbeth arall gaiff ei ddweud gan arweinwyr. Ac mae rhai hyd yn oed yn awgrymu y gallant rywsut ddeall ffordd o feddwl y llofruddwyr ac effalai hyd yn oed ei dderbyn yn y bôn. Dyma beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n anfon milwyr dramor, dywedant gan gredu eu bod wedi esbonio popeth.

Mae'r môr wedi mynd reit allan, mae'n ddiwrnod heulog, mae Bae Abertawe yn ddarn mawr gloyw wedi'i groesi gydag ychydig o ffrydiau bas sy'n llifo lawr o'r bryniau. Pan fo'r llanw'n uchel mae gwelyau'r nentydd, y nentydd eu hunain yn cael eu llyncu; nid ydynt yn llifo i'r môr: mae'r môr yn dod i'w hôl nhw. Mae cŵn yn rhedeg ar ôl prennau mae eu cymdeithion yn eu taflu iddynt. Mae rhai cŵn yn neidio i fyny, dal y pren, a rasio ar draws y tywod gwlyb a solet. Yna maent yn sefyll yno, yn ysgwyd eu cynffonau, ac yn aros i'r gêm ddechrau eto. Mae gwylanod yn gwawdio yn yr awyr neu'n pendwmmpian ar un goes mewn heidiau, cyn codi a hedfan yn sydyn heb unrhyw reswm amlwg, gan sgrechian a symud ychydig ymhellach i ffwrdd. Mae cregyn yn cracian

ac agor o dan draed. Er bod y Bae wedi sychu, nid yw'n bosib mynd y ffordd gyntaf i'r Mwmbwls; ar ôl ychydig o gamau, mae'r tywod solet yn troi'n llaid.

Mae cloc y llanw ym Mhier y Mwmbwls ger Abertawe yn nodi y bydd y llanw yn dechrau dod i mewn tua dau o'r gloch y prynhawn ac yn mynd allan tua un ar ddeg y nos. Mae baneri'n clepian uwch ben y pier, ond mae'n olygfa hafaidd, addurniadol heb fod yn fygythiol, fel mewn byd totalitaraidd, lle mae baner bob amser yn dynodi dedfryd. Ond dyma ni, yn eistedd yn y caffi ar y pier, y gwylanod yn cylchdroi uwchben, ychydig o gychod wedi'u hangori yn siglo, y tonnau'n symud, ac ychydig o Americanwyr ar fwrdd arall yn dyfalu beth yw pob baner, maent hyd yn oed yn adnabod yr un o Gernyw. Serch hynny, mae draig Cymru yn tynnu ei dafod arnom ni i gyd fel petai'n gwybod rhywbeth nad ydym ni'n ei wybod. Byddai anadlu'r byd yn parhau'n dawel hyd yn oed pe baem ni i gyd yn lladd ein gilydd. Damcaniaeth arall, sy'n codi'r cwestiwn ar unwaith os mai dyna amser cywir y ferf. Rydym yn lladd ein gilydd. Ac mae'r byd yn anadlu ac yn anadlu ac yn anadlu, mae'r llanw'n troi. Mae popeth fel pe bai'n disgwyl i ni ddiflannu eto.

25 Mai. Dydd Iau.

Mae'r Prydeinwyr yn flin oherwydd bod swyddogion America wedi enwi llofrudd Manceinion ar goedd. Mae'r Americanwyr yn cael eu beirinadu llawer beth bynnag—gan wleidyddion yr Almaen hefyd ac yn enwedig gan gyfryngau prif ffrwd yr Almaen—ers iddynt bleidleisio am y arlywydd anghywir. Mae twt twtian maldodus yn hofran dros bopeth a adroddir o'r UDA. Mae bywyd yn mynd yn ei flaen, fel y dywedir, ni all bywyd bob dydd sefyll yn stond, mae troi'r deial tiwnio ar y radio yn y gegin, sy'n dyddio'n ôl i'r oes analog ac yn dibynnau ar erial FM, yn eich llusgo i'r rhaglenni radio orliwgar rhaid-i-fwyd-fynd-ei-flaen gyda'u cerddoriaeth siriol. Mae rhagolygon y tywydd yn rhagweld ychydig o ddyddiau braf yng Nghymru. Mae bywyd yn mynd yn ei flaen. Yn yr un ffordd i rai, mewn rhyw ffordd arall i eraill.

Mae ychydig o fyfyrwyr ifanc iawn o Ffrainc a Sbaen yn cael amser da ar y bws sy'n mynd o Abertawe i Rosili ar Benrhyn Gŵyr, gan siglo i gerddoriaeth y 60au a ddewiswyd gan y gyrrwr bws nad yw'n ifanc mwyach. Mae gan y merched matiau traeth wedi'u plygu o dan eu breichiau a phêl. Mae pob un ohonom ar y bws yn edrych ymlaen at yr

ogofau a'r creigiau fydd yn barod amdanom ni yn y Gŵyr—yr ardal honno lle bu llawer o ymladd drosti rhwng y Cymry a'r Eingl-Sacsoniaid. Mae'n ddiwrnod o wanwyn gyda chynhesrwydd yr haf ac mewn ychydig oriau, byddwn yn dioddef ein llosg haul cyntaf... Ond ym Manceinion, mae gweddillion y plant a'r bobl ifanc a lofruddiwyd nos Lun yn oeri. Mae meddyliau'n glynú'n gyflym, ni ellir eu rhyddhau, mae bywyd yn mynd yn ei flaen, ydy, ond sut? Ni wnawn ni adael i'n ffordd o fyw gael ei gymryd oddi arnom ni, go wir?

Y tu allan i'r bws, mae Cymru'n loyw, edrycha arni! Cofia hyn! Sylla! Cofia hyn yn ddiweddarach, yn ôl yng nghanolbarth Ewrop pan fyddi di'n gweld eisiau'r môr eto, a lleferydd tonnog y Cymry yn eu sgwrs bob dydd. Mae'r bryn eithin uwchben Rhosili yn disgleirio. Gwlad chwedlonol, lle enciliodd y Celtiaid rhag yr Eingl-Sacsoniaid rheibus. Gan fynd yn ôl llawer, llawer ymhellach, mae un o'r pensiynwyr ar y bws i Rosili yn dweud wrth ei gydymaith ar y siwrnai—ydy mae'n siwrnai, beth arall!—cafodd y sgerbwed dynol hynaf a welwyd erioed ym Mhrydain ei ddarganfod yma, yn y Gŵyr, ddu gan mlynedd yn ôl. Roedd dros thri deg mil o flynyddoedd oed. A, amser!

Mae'r llanw isel wedi gwneud Pen Pyrod ym mhen pellaf Penrhyn Gŵyr yn dir hygyrch, cyraeddadwy. Mae pwys bynnag sy'n mentro croesi draw yn edrych fel delw ar y clogwyni, gyda'r môr o'u blaenau, yn agored, yn eang, gan ddechrau a gorffen ar yr un pryd. Caiff y gorffennol a hefyd y presennol eu dal yn ôl gan y clogwyn y tu ôl i chi. Dim o ble, ond lle i, a hynny'n ansicr. A gaiff rhywun eu hudo yno rhyw ddiwrnod, a chael eu dal gan y llanw sy'n codi'n gyflym a'i wneud yn ynys mewn ychydig iawn o amser? Dim ond oherwydd, a dim ond i ddysgu gwers iddynt. Am beth bynnag.

Ym mis Tachwedd, mae'r gornel hon o'r byd yn anghysbell, diarfodd a diffaith, ond yn llawn glaw, gwynt a thyrfedd. Nid yw'n debygol y gwelir neb, hyd yn oed o'r pentref bach, y tu allan bryd hynny. Dyma'r adeg y bydd yn torri drwy'r wyneb, y byd cynddynol (neu a yw'n weledigaeth o'r byd ôl-ddynol) ac mae'n arw, elfennol ac yn gyflawn, mae'n dangos ei hun fel cyfanrwydd, hyd yn oed hebom ni. Ond un diwrnod cynnes hafaidd ym mis Mai, mae ein gorymdaith yn symud ar hyd y llwybrau caled o'r maes parcio neu'r arosfan bws wrth Eglwys y Santes Fair, lle coffeir Edgar Evans, a anwyd yn Rhosili a bu farw yn Antarctica gyda Chapten Scott ym 1912. Rydym yn gwisgo ein

dillad lliwgar fel pe bawn mewn sioe ffasiwn, rydym yn gweiddi, chwerthin a gwneud sŵn, rydym yn parhau i ddal camerâu ein ffonau symudol at ein llygaid (?!), er mwyn anfon yr hyn a welwn yn syth (ond a ydynt mewn gwirionedd yn dal i weld, ein llygaid ni?) i'r rhannau mwyaf pellenig o'r byd, yn syth i ganol noson Siapaneidd neu i ddiwrnod sy'n gwawrio yng ngorllewin America.

Mae maes parcio Rhosili yn cael ei ailwynebu yn barod ar gyfer y tyrfaoedd fydd yn ymweld yn yr haf, mae cerbydau adeiladu yn cynhyrifu'r llwch, mae fforman yn gweiddi a chwerthin wrth arwain lori sy'n bacio i'w le, mae ceir ymwelwyr yn cael eu hanfon at gae i'w parcio yno. Saif dynes wrth ymyl ei char, mae'n sefyll wrth ymyl drws agored y car, mae'n gwisgo sgarff am ei phen. Y tu ôl i'r drws mae ei gwâr yn gweddio; mae'n penglinio, yn cyffwrdd y ddaear gyda'i dalcen, yn sefyll i fyny, yn codi ei ddwylo o flaen ei wyneb, yn siarad yn dawel, yn penglinio.

Mae'r ddynes, fel y dyn, yn ifanc, mae hi'n feichiog, ac mae hi'n gwarchod ei gwâr wrth iddo weddio y tu ôl i'r drws. Mor fregus yr ydym wrth weddio. A pha mor gyfrinachol y mae'r dyn hwn yn gweddio, o'r neilltu, ac mor wahanol i'r addolwyr allblyg a welwyd yn ddiweddar ym Merlin neu ddinasoedd eraill yn yr Almaen, addolwyr allblyg nad ydynt yn gweddio mewn gwirionedd ond yn brysur wylio allan o gorneli eu llygaid i wirio bod eu hystum—neu beth bynnag y maent yn ei wneud—yn cael digon o sylw. Dynion yn meddiannu mannau cyhoeddus, gorchestwyr crefyddol sy'n ymdrechu i wthio eu crefyddusrwydd ar bobl eraill. Mor gynnill yw'r addolwr hwn! O, i ddweud: Chwaer, i ddweud: Brawd. O, i roi eich talcen ar dir Celtaidd mewn gobaith o gyrraedd at Dduw—y Duw mawr sy'n gosbwr neu'n gariadus? Gweddio cynnil ar y clogwyni, ar y darn o dir sy'n arwain at Ben Pyrod a'r hyn y mae'r bardd Vernon Watkins yn ei alw'n 'ymyl y byd', ymyl eithaf y byd.

26 Mai. Dydd Gwener.

Ar ôl blynnyddoedd o waith adnewyddu, mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe wedi ailagor. Ar y bore disglaир hwn, mae'n lloches yng nghanol byd simsang. Mae'r ymwelwyr prin yn diflannu i'r ystafelloedd. Maent yn cerdded heibio i gasgliadau'r sylfaenydd cyfoethog, mab diwydiannwr, Glynn Vivian (1835-1910), a fwriadwyd ac fwriedir o

hyd i ddod â threfn i'r byd trwy gadw artefactau o fynegiant dynol o bob cwr o'r ddaear gyda'i gilydd. Wrth gwrs, dyma'r hyn a fynegir gan bob beth sy'n cael ei arddangos, boed yn borslen, neu'n baentiad, ond y bore hwn yr hyn sydd bwysicaf yw presenoldeb tawel y pethau, eu dygnwch yn sŵn y presennol. Mae gan amser ddimensiwn gwahanol yn yr ystafelloedd hyn; mae ymwelwyr yn ei anadlu â phob anadl, mae eu camau'n ymdawelu, efallai eu bod nhw hyd yn oed yn llwyddo i drawsnewid o edrych i weld. Ac eisoes mae'r awr neilltuedig yn yr Oriel ar ben ...

Y tu allan i'r drysau, ymddengys i mi, fod Cymru, De Cymru sydd wedi ei seisnigeiddio, Abertawe, yn fydd trawsnewidiol, er ni allaf amgyffred yn llwyr i ble y mae'r newid hwn yn arwain. Mae'r *Uplands*, y gymdogaeth lle roeddwn i'n byw ar ddechrau'r 1990au, wedi cael ei Dylan-Thomaseiddio yn llwyr. Mae arwyddion yn nodi lle roedd yn byw pan yn fachgen, lle roedd yn arfer cerdded, ac yn wir yn awgrymu mai ef oedd pia'r gymdogaeth gyfan. Mae perchnog preifat yn cyflwyno ei fan geni yn Cwmdonkin Drive fel cyrchfan pererindod i ddilynwyr Thomasaidd, tra bod Cyngor Abertawe yn ystyried sut i ddiogelu'r tu allan i'r adeiladau Fictoraidd ac Edwardaidd yn ardal plentyndod Dylan Thomas. Ar yr un pryd, ymddengys bod y trigolion wedi newid yn llwyr. Pum mlynedd ar hugain yn ôl, roedd teuluoedd â phlant yn dal i fyw yn yr Uplands, a hen bobl, ond erbyn hyn myfyrwyr yn aml, a llawer rhy aml, sy'n byw yn y tai. Mae'n debyg bod hyn yn fwy proffidiol i'r perchnogion, ond mae'n rhaid talu pris am bob elw, a'r pris yma yw gwedd glwyfedig y gymdogaeth. Yn y ffenestri bae, lle arferai teuluoedd gasglu ynghyd, gwelir baneri yn adrodd tarddiad y myfyrwyr sy'n denantiaid, ond am y clybiau pêl-droed y maent yn eu cefnogi gan fwyaf. Yn ôl pob sôn, cynyddodd nifer y myfyrwyr sydd eisiau astudio yn Abertawe ugain y cant ar ôl i Ddinas Abertawe gael ei dyrchafu i'r Uwch Gynghrair, ac felly roedd hi'n bwysig iawn na chafodd y clwb ei anfon i lawr ar ddiweddu tymor 2016/17. Mae'n rhaid i'r brifysgol—ac yn hyn o beth nid yw'n wahanol i brifysgolion yn yr Almaen—ganolbwytio ar gwsmeriaid wrth gynllunio ei darpariaeth. Mae hyn yn golygu yn bennaf addasu i'r Tseineaid a'r Arabiaid a'u dymuniadau, gan mai nhw sy'n dod â'r arian mwyaf. Nid yw'n wahanol i brifysgolion yr Almaen yn hyn o beth chwaith. Felly: baneri, tyrfaoedd o fyfyrwyr ar y strydoedd gyda'r nos, y siop ddiodydd wedi'i

